Papur y Bwrdd

10 Chwefror 2015

Teitl y Papur:	**Diweddariad ar Gyllid 2014-15**
Cyfeirnod y Papur:	**CNC B B 4.15**
Paratowyd y Papur gan:	Rob Bell ac Andrea Morgan

Pwrpas y Papur:	Rhoi diweddariad i'r Bwrdd ar y sefyllfa ariannol yn 2014-15.
Argymhelliad:	Nodi cynnwys y papur a rhoi adborth ar unrhyw faterion a godwyd.
Angen Penderfyniad:	Na

Effaith: Noder – efallai na fydd pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc	**Effaith ar yr Amgylchedd**: Bydd gwneud defnydd effeithiol o'n hincwm yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein hadnoddau prin ar gyflawni canlyniadau â blaenoriaeth **Effaith ar yr Economi**: Mae defnydd effeithiol o'n hadnoddau yn sicrhau ein bod yn dangos gwerth am arian i'r cwsmeriaid yr ydym yn codi tâl arnynt **Effaith ar y Gymuned**: Mae defnydd effeithiol o'n hadnoddau yn sicrhau ein bod yn sicrhau'r manteision mwyaf i'n cymunedau. **Effaith ar Wybodaeth**: amherthnasol

Pwnc

1. Darparu diweddariad i'r Bwrdd ar y sefyllfa ariannol ar ddiwedd mis Rhagfyr 2014.

Crynodeb

2. Y bwriad yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf o'r Adroddiad Perfformiad Ariannol, sydd wedi'i gynnwys fel Atodiad, gyda chrynodeb o'r prif negeseuon yn y papur eglurhaol hwn.

3. Dechreuwyd y Flwyddyn Ariannol hon gyda chyllideb gytbwys.

   Ar ôl chwe mis, aethom ati i adolygu sefyllfa ein cyllideb yn fanwl gan gynhyrchu Cyllideb Ddiwygiedig. Roedd hon yn ystyried incwm ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rhaglenni gwaith penodol, ac incwm cynyddol o goed sydd wedi'i ail-fuddsoddi'n rhannol mewn blaenoriaethau busnes. Canlyniad cyffredinol y Gyllideb Ddiwygiedig yw gwarged o £1.1 miliwn o incwm dros wariant.

   Mae ein Rhagolwg Alldro cyfredol yn cyd-fynd â'r gwarged hwn o £1.1 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn, ac rydym yn bwriadu ei gario ymlaen i 2015-16.

Cefndir

4. Yn dilyn adborth gan y Bwrdd a'r manteision o symud i System Gyllid newydd, rydym wedi manteisio ar y cyfle i ddiwygio fformat y papur Diweddariad ar Gyllid.

5. Mae'r Atodiad newydd yn symud tuag at fformat yr Adroddiad ar Berfformiad y mae'r Bwrdd yn ei dderbyn deirgwaith y flwyddyn. Mae wedi'i rannu'n bedair adran, fel a ganlyn:

   Incwm – crynodeb ac esboniad o amrywiannau allweddol

   Gwariant – crynodeb ac esboniad o amrywiannau allweddol

   Newidiadau i'r Gyllideb - llwybr archwilio o newidiadau o'r Gyllideb Wreiddiol i'r Gyllideb Ddiwygiedig gyfredol

   Cydymffurfio – mesurau perfformiad trafodol ariannol allweddol

Negeseuon Allweddol

6. Mae incwm ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed ar ddiwedd y flwyddyn, gyda'r tebygolrwydd y byddwn yn derbyn ychydig yn fwy o Incwm Taliadau nag y cyllidebwyd ar ei gyfer.

7. Mae gwariant ar ei hôl hi ar hyn o bryd, ond disgwyliwn iddo godi yn ystod y chwarter olaf.

8. Rydym yn ymwybodol o rai eithriadau i hynny, er enghraifft, lle rydym yn disgwyl i incwm a gwariant ein Cynllun Busnes Ynni Pren a Choetiroedd Gwell i Gymru fod yn is na'r gyllideb ond heb effaith negyddol net.

9. Yn gyffredinol, rydym yn rhagweld y byddwn yn cario £1.1 miliwn ymlaen i Flwyddyn Ariannol 2015-16 i wneud iawn am bwysau ariannol y flwyddyn nesaf.

Risgiau

10. Rydym newydd weithredu modiwlau cyllid craidd system Adnoddau Dynol a Chyllid integredig newydd sy'n disodli tair system y cyrff blaenorol. Mae gwaith prosesu ac adrodd y mis cyntaf wedi cymryd yn hirach na'r disgwyl ond byddwn yn dechrau gweld manteision cael un system graidd dros yr wythnosau nesaf.

Goblygiadau Ariannol

9. Nod y papur hwn yw amlygu'r goblygiadau ariannol i Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2014-15.

Cyfathrebu

10. Mae'r materion a godwyd yn yr adroddiad wedi'u hadrodd i'r Tîm Gweithredol yn ystod mis Ionawr.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA)

12. Amherthnasol.

Atodiad
Atodiad – Adroddiad Rheoli Cyllideb Rhagfyr 2014